**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**24 Hydref 2016**

# WYLFA NEWYDD

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Tynnu sylw'r Panel Gweithredol at y goblygiadau i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o ran sicrhau adnoddau o ganlyniad uniongyrchol i gynlluniau i ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa, yn ogystal â'r datblygiadau cysylltiedig.

## Cefndir

2 Mae Horizon, is-gwmni i Hitachi Ltd, yn cynllunio i ddatblygu gorsaf bŵer niwclear ar safle Wylfa, ac mae wrthi'n ymgynghori â rhanddeiliaid yn ystod yr ail o 'Ymgynghoriadau Cyn gwneud Cais' (PAC2) cyn cyflwyno cais i'r Ysgrifennydd Gwladol i gymeradwyo Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. I ddilyn hynny, bydd nifer fawr o ymgynghoriadau dan Ddeddf Cynllunio Gwladol a Thref yn ymwneud â'r datblygiadau cysylltiedig.

3 Bydd y gwaith o adeiladu Wylfa Newydd yn cael ei wneud gan Menter Newydd, sef menter ar y cyd rhwng Hitachi Nuclear Energy Europe Ltd, Bechtel Management Company Ltd, a JGC Corporation (UK) Ltd gyda Horizon yn goruchwylio.

4 Yr adweithyddion niwclear a ddefnyddir yn Wylfa Newydd fydd Adweithyddion Dŵr Berw Uwch y D.U. (UK ABWR), a gyda'i gilydd bydd ganddynt 2,700MW o allbwn trydanol.

**Gwybodaeth**

5 Yn ystod amser brig y gwaith adeiladu, amcangyfrifir y bydd 11,700 yn cael eu cyflogi ar Ynys Môn, llawer ohonynt yn weithwyr adeiladu gwryw ac ifanc o amrywiaeth o ddiwylliannau a gwledydd gwahanol.

6 Bydd y gweithwyr yma'n cael eu lletya mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys y stoc tai rhent preifat sy'n bodoli eisoes, llety a adeiladir o'r newydd a fydd yn cael eu defnyddio wedi hynny, a llety dros dro pwrpasol. Hefyd, rhagwelir y bydd llawer o'r gweithwyr yn teithio i Ynys Môn bob dydd o rannau eraill o Ogledd Cymru ac o ardaloedd mor bell â Manceinion a Lerpwl.

7 Bydd angen ystyried datblygiad Wylfa Newydd yng nghyd-destun datblygiadau eraill sy'n gysylltiedig ag ynni ar Ynys Môn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Fferm Solar Llanbadrig
- Ail-bweru Rhosgoch
- Biomas a pharc eco Orthios
- Parc Gwyddoniaeth Menai
- Cysylltiad newydd rhwng Wylfa Newydd a'r Grid Cenedlaethol drwy'r is-orsaf ym Mhentir.

8 Heblaw am y prif safle adeiladu, mae nifer o safleoedd arwyddocaol eraill yn gysylltiedig â'r datblygiad:

- Gwelliannau all-lein i'r A5025 o'r Fali i Gemaes.
- Gwelliannau all-lein i'r A5025 yn y Fali, Llanfachraeth, Llanfaethlu a Chefn Coch.
- Cyfleusterau gorsaf bŵer oddi ar y safle, gan gynnwys ystafell reoli amgen ar gyfer argyfyngau, a labordy arolwg amgylcheddol yng Nghefn Coch.
- Modurdy cyfarpar argyfyngau mecanyddol yn Llanfaethlu.
- Cyfleuster all-lwytho morol (MOLF) ym Mhorth y Pistyll i gynorthwyo i ddanfon deunyddiau adeiladu a chyfarpar ar y môr.
- Llety i weithwyr adeiladu yn Kingsland a Chae Glas, gyda hyd at 3500 o welyau, i'w ddefnyddio wedyn fel cyfleusterau tai preifat a hamdden (Land & Lakes).
- Hen safle Shell yn Rhosgoch gyda hyd at 1500 o welyau.
- Fferm Madyn, Amlwch gyda 200 o welyau, i'w defnyddio wedyn fel tai.
- Cyfleuster lletya dros dro Amlwch A a B, gydag 800 o welyau.
- Llety ar y safle, gyda 500 o welyau i staff allweddol.

- Canolfan logisteg ym Mharc Cybi, Caergybi.
- Maes parcio a theithio yn y Dalar Hir, i ddarparu hyd at 2,700 o lefydd parcio.

9 Ni welwyd prosiect o’r maint hwn erioed o’r blaen yng Ngogledd Cymru.

10 Y peth tebycaf ddiweddaraf yw’r cyfleuster niwclear newydd yn Hinkley yng Ngwlad yr Haf, ac mae’r swyddogion wedi trafod, yn faith, â chydweithwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Dyfnaint a Gwlad yr Haf i weld beth fyddai’r gofynion o ran sicrhau adnoddau.

11 Bydd angen gweithio gyda’r datblygwyr i dynnu sylw at bryderon yn ystod y cyfnod cynllunio. Yna, bydd angen cynnal gweithgareddau diogelwch tân i fusnesau, rhoi cyngor diogelwch cymunedol ac addysg i’r gweithwyr, a gwneud cryn dipyn o waith cynllunio a hyfforddi gweithredol ar gyfer argyfyngau.

12 Felly, mae’n bwysig iawn fod GTAGC yn sicrhau adnoddau cywir ar gyfer y prosiect hwn a’i fod yn darparu un pwynt mynediad cyson, sydd â’r profiad angenrheidiol i gynrychioli buddiannau’r Gwasanaeth drwy’r amser.

13 Canfuwyd Rheolwr Grŵp i gyflawni’r swydd hon yn llawn amser am y 12 mis nesaf, gyda’r posibilrwydd o ymestyn eto wedyn, gan adolygu hynny bob blwyddyn.

14 Fodd bynnag, bydd angen parhau â’r gwaith a oedd yn cael ei gyflawni gan y swyddog hwn felly bu’n rhaid symud adnoddau o wahanol rannau o’r Gwasanaeth.

15 Hefyd, ar adegau brig yn llinell amser Wylfa Newydd, bydd cael aelodau ychwanegol o’r staff ar secondiad i’r prosiect fel y bo’r angen.

16 Cyflwynwyd achos busnes i Horizon i ofyn iddynt ad-dalu costau sy’n gysylltiedig â goblygiadau llwyth gwaith ychwanegol y datblygiad hwn, a disgwylir ymateb i hynny maes o law.

**Argymhelliad**

17 Bod Aelodau yn nodi goblygiadau datblygiad Wylfa Newydd i GTAGC, a chefnogi’r dull a ddilynir i sicrhau adnoddau cywir ar gyfer y gwaith pwysig hwn.